

RHAGARWEINIAD

Anaml iawn y gwelir byfflo dŵr (*Bubalus bubalis*) yng Nghymru. Fodd bynnag, mewn rhannau eraill o Ewrop, yn arbennig Yr Eidal a Romania, mae yna nifer fawr o ffermydd sy'n cynhyrchu llaeth, cig a chrwyn o'r anifeiliaid hyn. Cynhyrchir caws Mozzarella go iawn gan ddefnyddio llaeth byfflo'n unig ac mae cynhyrchu Mozzarella yn ffactor bwysig yn llwyddiant cynhyrchwyr byfflo yn Yr Eidal.

Datblygwyd y fuches fasnachol gyntaf o fyfflo yn y DU yn y 1980au. Ers hynny mae ychydig o ffermwyr eraill wedi mentro i gynhyrchu byfflo, ond mae'r niferoedd yn dal yn fychan iawn. Cafwyd hwb mawr i'r diwydiant yn 2003 pan ddechreuodd un o brif archfarchnadoedd y DU gadw llaeth byfflo. Er bod y farchnad ar gyfer cynhyrchion byfflo yn dal yn fychan, mae potensial iddi ehangu. Byddai hyn yn cael ei hwyluso pe bai yna hufenfa ganolog ar gyfer prosesu llaeth byfflo.

BRIDIAU

Ni ddefnyddiwyd strategaethau bridio penodol digonol eto gyda byfflo dŵr i greu 'bridiau' go iawn, ond mae yna wahaniaethau penodol rhwng gwahanol linachau. Mae'r rhan fwyaf o anifeiliaid yn y DU yn tarddu naill ai o linachau Romanaidd neu Eidalaid. Yn gyffredinol, ystyrir bod stoc Eidalaid o well ansawdd, o ran cynhyrchu llaeth a chig, na stoc Romanaidd. Hefyd mae'r manteision cynhyrchu posibl o ddefnyddio'r stoc Eidalaid well yn gorbwysu cost uwch prynu'r anifeiliaid yn y lle cyntaf. Mae cynhyrchwyr byfflo yn y DU wedi darganfod bod yr ail a'r drydedd genhedlaeth o anifeiliaid a fagwyd gartref yn haws eu trin na'r stoc wreiddiol a fewnforiwyd.



Ffig 1: Byfflo Dŵr - Gogledd Cymru

Mae byfflo dŵr o wahanol rywogaeth i wartheg (*Bubalus* yw byfflo tra mai *Bos* yw gwartheg). Felly, ni all gwartheg a byfflo ryngfridio. Mae rhai ffermydd yn cadw byfflo a gwartheg ac anaml iawn y mae byfflo'n dangos unrhyw ddiddordeb yn y gwartheg nac yn ymosodol tuag atynt.

IECHYD

Hyd yma mae buchesi byfflo Ewropeaidd wedi bod yn iach iawn ac yn gallu gwrthsefyll afiechydon yn gyffredinol. Y broblem iechyd fwyaf cyffredin y cafwyd gwybod amdani yw cwmp y groth a bwrw'r llawes goch. Ni wyddys beth yw achos hyn ond efallai ei fod yn ymwneud â geni llo'i'n hawdd. Hyd yma, yn wahanol i wartheg godro, nid yw byfflos yn dueddol o gael mastitis na phroblemau traed. Mae hyn yn golygu eu bod o ddiddordeb arbennig i ffermwyr sy'n rhoi pwys ar fewnbwn is neu dulliau ffermio organig. Oherwydd eu bod yn gryf o gorff mae byfflo'n byw'n hen ac yn aml mae gwartheg yn dal i odro i'w harddegau hwyr. Yn ogystal, gan fod cyfansoddiad genetig byfflo'n wahanol i wartheg, maent yn hollol rydd o BSE.

Mae gan fyfflo dŵr lai o chwarennau chwys na'r rhan fwyaf o wartheg. Dyna pam y byddant yn gorweddian mewn mwd i gadw'n oer yn eu cynefin naturiol. Mae'r mwd hefyd yn eu hamddiffyn rhag trogod a phryfed i ryw raddau. Yng Nghymru, cyn belled ag y bo byfflo'n medru mynd i'r cysgod yn ddigonol yn ystod yr haf, gallant wneud heb ymdrybaeddu mewn mwd. Mae gan fyfflo gyflenwad gwaed da iawn hefyd yn eu cyn ac mae hynny'n beth arall sy'n eu helpu i gadw'n oer. Ni thorrir eu cyn yn Ewrop fel rheol ac nid yw'n cael ei argymhell. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai lladd-dai'n amharod i gymryd byfflos gyda chyrn.

BRIDIO

Gall byfflos benyw ddechrau bridio pan maent tua dyflwydd oed, a rhai gwryw pan maent yn dair.

Mae'r rhan fwyaf o gynhyrchwyr byfflo'n defnyddio ffrwythloniad naturiol, gan gadw eu teirw eu hunain i redeg â'r fuches. Mae'n anodd canfod symptomau oestrws mewn byfflo



Ffig 2. Buwch a llo byfflo

ac os defnyddir ffrwythloni artiffisial, mae'n bwysig syncroneiddio'r oestrws. Mae cyfraddau beichiogi'n amrywio'n fawr iawn, yn dibynnu ar ddulliau rheoli.

Mae cyfnod beichiogrwydd byfflo'n hwy na gwartheg ac mae hefyd yn bur amrywiol – yn amrywio o tua 310 i 333 diwrnod. Anaml iawn iawn y ceir problemau geni mewn gwartheg byfflo, yn bennaf oherwydd bod y llo'n weddol fychan (c. 40kg pan gaiff ei eni).

BWYD

Dylid gofyn am gyngor proffesiynol bob amser wrth baratoi porthiant er mwyn sicrhau y darperir yn iawn ar gyfer anghenion yr anifeiliaid. Mae hyn yn eithriadol bwysig os defnyddir yr anifeiliaid i gynhyrchu llaeth: mae angen darparu porthiant sy'n cynnwys digon o egni a maethynnau i gadw'r anifail mewn cyflwr da a'i gael i gynhyrchu llaeth yn ddigonol. Mae byfflo'n well na gwartheg am drosi porthiant o ansawdd isel; yn wir, maent yn ffynnu orau ar fwyd o ansawdd garw. Mae'n bwysig gofalu bod eu bwyd yn cynnwys cyfran dda o ddeunydd ffibraidd ac nad yw'n rhy fras.

LLAETH BYFFLO

Mae llaeth byfflo'n wynnach ac yn fwy llyfn ei ansawdd na llaeth gwartheg. Hefyd mae'n cynnwys llai o golesterol a mwy o brotein, haearn, calsiwm a ffosfforws na llaeth gwartheg. Yn Nhabl 1 gwelir cyfansoddiad maethol llaeth byfflo a gwartheg a gynhyrchir o dan amodau'r DU.

Gellir godro byfflo gydag offer godro gwartheg arferol. Honna'r rhan fwyaf o berchenogion bod byfflo'n haws eu trin ac yn lanach na gwartheg godro yn y parlwr godro, unwaith y byddant wedi cael eu dysgu beth i'w wneud. Mae byfflo'n rhoi llaethiad sylweddol is na gwartheg. Yn y DU mae byfflo ar gyfartaledd yn rhoi oddeutu 1850kg – 2500kg y llaethiad, gyda'r symiau is yn fwyaf cyffredin yn y cyfnodau llaethu cyntaf ac yn cynyddu mewn blynyddoedd dilynol. Fodd bynnag, dylid cofio ar y llaw arall y ceir pris llawer uwch am laeth byfflo (c. 70c y litr yn 2004) ac mae potensial i gael yr anifeiliaid i laethu'n well trwy raglenni bridio dethol.

MARCHNADOEDD

Yn ystod y degawd diwethaf gwelwyd cynnydd araf, ond cyson, yn y farchnad am laeth byfflo a chynhyrchion llaeth yn y DU. Fodd bynnag, mae'n fychan iawn o'i chymharu â'r farchnad am laeth gwartheg ac mae'r cyfrifoldeb yn bennaf ar y cynhyrchwr i gael hyd i brynwr i'w nwyddau, boed yn llaeth ei hun neu nwyddau fel caws, iogwrt a hufen iâ. Yn aml pwysleisir y manteision honedig i iechyd wrth hyrwyddo cynhyrchion byfflo ac mae cael troedle yn y farchnad bwydydd iach yn gyfle i gynhyrchwyr byfflo. Mae rhai o'r honiadau iechyd wedi cael eu profi'n wyddonol. Er enghraifft, mae llai o golesterol mewn llaeth byfflo. Fodd bynnag, mae eraill wedi eu seilio fwy ar dystiolaeth anecdotaidd; er enghraifft, bod newid o yfed llaeth gwartheg i laeth byfflo yn lliniaru symptomau ecsema. Mae peth tystiolaeth hefyd bod llaeth byfflo, a chynhyrchion llaeth, yn addas i rai mathau o anoddefgarwch tuag at laeth gwartheg. Nid yw llaeth byfflo'n dod o dan y drefn Cwota CAP - nid oes unrhyw gyfyngiadau ar gynhyrchu.

Ar hyn o bryd mae'r rhan fwyaf o gig byfflo'n cael ei werthu'n syth i'r cwsmer trwy farchnadoedd ffermwyr, siopau fferm, neu drwy archebion post. Mae cig byfflo'n cynnwys llai o fraster a cholesterol na biff ac mae'r nodweddion hyn yn cael eu pwysleisio'n aml wrth ei farchnata.

DEDDFWRIAETH

I bob pwrpas mae byfflo'n cael eu trin fel gwartheg i ddibenion deddfwriaeth. Mae'n rhaid i bawb sy'n cadw byfflo gofrestru â'r Swyddfa Iechyd Anifeiliaid. Mae angen i bob byfflo gael ei adnabod yn unigol, mae'n rhaid eu cofrestru â'r BCMS a rhaid iddynt gael pasbort. Mae pob deddfwriaeth sy'n ymwneud â chadw cofnodion a symud gwartheg yn berthnasol i fyfflos hefyd. Mae'n rhaid i bob fferm sy'n mynd i gynhyrchu cynhyrchion llaeth o fyfflos gael eu cofrestru â'r Arolygiaeth Hylendid Llaeth a chydymffurfio â'r Rheoliadau (Hylendid) Cynhyrchion Llaeth.

Tabl 1: Dadansoddiad cyfansoddiad – gwerthoedd i bob 100g o laeth yn y DU

	Byfflo	Buwch
Braster (g)	8.0	3.9
Protein (g)	4.5	3.2
Carbohydrad (g)	4.9	4.8
Egni (kcal)	66	110
Colesterol (mg)	8	14
Calsiwm (iu)	195	120

Ffynhonnell: Buffalo Milk Cooperative